# Adroddiad Blynyddol Cenhadaeth Ddinesig

# 2024-2025

## Gweithio gyda'n gilydd er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol ledled gogledd Cymru.

## Cyflwyniad

Dros y saith mlynedd ddiwethaf, rydym wedi esblygu ein Cenhadaeth Ddinesig yn sylweddol er mwyn ymateb i anghenion gwirioneddol ein cymunedau a'n partneriaid. Gan ddefnyddio ymgysylltu a chysylltiad uniongyrchol er mwyn meithrin cyd-berthnasoedd ymddiriedig sy'n ein galluogi ni, fel hwylusydd systemau, i ddeall yn llwyr y bobl a'r llefydd rydym yn eu gwasanaethau fel sefydliad angor- a chanolbwyntio ar un o'r heriau sydd angen ei flaenoriaethu: mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol yng ngogledd Cymru.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein gwaith wedi datblygu ac esblygu, gyda'n tîm, ein partneriaethau a chwmpas ein prosiectau'n tyfu'n sylweddol. Buom yn gweithio ar dros 35 o brosiectau, gyda channoedd o bartneriaid, a chan ymgysylltu gyda miloedd o bobl o fewn y gymuned.

Rydym wedi sicrhau bod prosiect peilot Prifysgol Plant Gogledd Cymru yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus, wedi datblygu ein gwaith TrACE oddi mewn ac oddi allan i'r Brifysgol, wedi lansio'r Bartneriaeth Ymgysylltiad Dinesig Gogledd Cymru, a llawer mwy.

Ym mis Mehefin 2024, aethom ati i lansio ein Strategaeth Partneriaeth Cenhadaeth Ddinesig ochr yn ochr â phartneriaid, ac wedi datblygu cyfres o bodlediadau i adlewyrchu ein taith a sicrhau bod mwy o bartneriaid a chymunedau yn ymgysylltu gyda'r gwaith rydym yn ei wneud.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at beth o'r cynnydd rydym wedi'i wneud a'r traweffaith rydym wedi'i gael drwy weithio gyda'n gilydd dros y 12 mis diwethaf, ac mae'n amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Os hoffech chi siarad gyda ni ynghylch ein Cenhadaeth Ddinesig a sut allwn ni weithio gyda'n gilydd, cofiwch gysylltu â ni.

Nina Ruddle,

Pennaeth Ymgysylltiad Polisi Cyhoeddus

## Ein Ffocws

Fel sy'n cael ei amlinellu yng Ngweledigaeth 2030 Prifysgol Wrecsam, ein nod yw bod yn sefydliad dinesig modern a blaenllaw, sy'n ymgysylltu'n rhanbarthol ac yn fyd-eang, gan ddarparu sgiliau ac ymchwil ddylanwadol sy'n annog twf economaidd ac arloesedd er lles y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Dros y saith mlynedd ddiwethaf mae ein Cenhadaeth Ddinesig wedi esblygu er mwyn bodloni'r angen gan bartneriaid a chymunedau i fynd i'r afael â newidiadau o fewn y gymdeithas. Rydym wedi canolbwyntio ar arwain cymunedau drwy gyd-greu ac arloesedd cymdeithasol er mwyn rhoi newid ar waith. Rydym yn flaengar o ran galluogi'r newid hwn, gan weithredu fel cynullydd systemau a galluogwr gweithredoedd ar draws tirwedd partneriaeth gymhleth:

Mae ein gwaith wedi bod yn gatalydd gwirioneddol ar gyfer newid ar lefel rhanbarthol ac mae wrth wraidd, ac ar y blaen o ran rhoi Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith. Mae'r gwaith yn arwain yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ac wedi'i gynnwys fel astudiaeth gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, fel Prosiect Enghreifftiol Comisiwn Bevan ac astudiaeth achos fyd-eang y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd - ochr yn ochr â chael ei gyflwyno yn nifer o gynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol.

Drwy raglen Cenhadaeth Ddinesig o dros 35 o brosiectau, rydym yn gweithio'n gydweithredol er mwyn cyflawni newid ystyrlon ar draws ein pedair prif thema:

- Arweinyddiaeth, Llywodraethu a Gwaith System Gyfan
- Adeiladu Cydnerthedd Cymunedol
- Cadw'n Iach
- Ymchwil a Phartneriaethau Strategol

## Cwrdd â'r Tîm

Yma yn y tîm Cenhadaeth Ddinesig, rydym yn gwerthfawrogi cynhwysiant ac amrywiaeth! Daw ein tîm o ystod o wahanol gefndiroedd proffesiynol a phersonol, ac rydym yn dod â'n hamrywiaeth o sgiliau a phrofiad ynghyd er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol yn y ffordd fwyaf effeithiol bosib. Y cyfan gydag agwedd bositif a gwên ar ein hwynebau!



## Ein Huchafbwyntiau

Dros gyfnod 2024-2025, rydym wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid allweddol, ar amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, er mwyn helpu i gefnogi ein cymunedau lleol. Dyma rai o'r prif ystadegau sy'n amlygu'r gwaith rydym wedi'i wneud dros y cyfnod hwn.

- 2,912 o bobl ifanc wedi dangos diddordeb
- 4,814 o oedolion wedi dangos diddordeb
- 67 o ysgolion wedi dangos diddordeb
- 92 o ddigwyddiadau/gweithdai wedi'u trefnu (neu wedi eu cyfrannu atynt)
- 68+ o bartneriaid wedi'u cydweithredu â hwy

**mae'r ffigyrau hyn yn seiliedig ar ddata o Ionawr 2024 i Awst 2025*

## Arweinyddiaeth, Llywodraethu a Gwaith System Gyfan

### Partneriaeth Ymgysylltu Dinesig Gogledd Cymru (NWCEP)

Ym mis Mai 2025, fe wnaethom lansio Partneriaeth Ymgysylltu Dinesig Gogledd Cymru (NWCEP) mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor ac wedi'i gefnogi gan Medr. Mae'r bartneriaeth hon yn dwyn ynghyd wneuthurwyr newid ac arweinwyr ar draws y rhanbarth i drafod heriau a datblygu cynllun gweithredu er mwyn alinio blaenoriaethau, hwyluso cydweithrediad rhanbarthol, adeiladu capasiti a mwyhau adnoddau ar draws y dirwedd.

Mae'r NWCEP yn bartneriaeth ranbarthol arloesol, sy'n arwain yn genedlaethol, a dyma'r gyntaf o'i bath yng Nghymru. Yn dilyn dau gyfarfod cyntaf NWCEP, rydym wedi datblygu pedwar prif faes newid ar draws y rhanbarth:

- diffyg cyfranogiad dinasyddion mewn gwasanaethau cyhoeddus
- diffyg uchelgais o ran lleoedd unigol
- tlodi plant
- diffyg ymgysylltiad mewn gwarchod yr amgylchedd/ newid yn yr hinsawdd

## Lab Gwasanaeth Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSL)

Gofod ffisegol a rhithiol sy'n dwyn arweinwyr ynghyd er mwyn gweithio mewn ffordd wahanol. Adeiladu capasiti a galluoedd i yrru arloesi o amgylch heriau cydweithredol.

Darparu rhaglen o ddosbarthiadau meistr i bartneriaid, ar bynciau a sgiliau megis arwain systemau, naratif cyhoeddus ac adeiladu perthnasoedd.

Darparu cynhadledd ar Arwain Systemau ym mis Chwefror 2025 ochr yn ochr gyda Do Well, i dros 70 o fynychwyr ledled y rhanbarth.

Cynnal y gynhadledd 'Cymru Iachach, Gyfoethocach a Thecach - Gweithio gyda'n Gilydd i fynd i'r Afael â Thlodi Plant', mewn partneriaeth â Mudiad 2025, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Archwilio Cymru, Llywodraeth Cymru, Economi Llesiant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, a Phartneriaeth Ymgysylltu Dinesig Gogledd Cymru.

Gweithio gyda Xplore! a'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (PSBau) er mwyn darparu sesiynau Arweinwyr y Dyfodol i 353 o ddysgwyr o 15 ysgol ar draws y 6 sir yng ngogledd Cymru.

## Mudiad Gogledd Cymru 2025

Mudiad cymdeithasol dros newid er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yng ngogledd Cymru - sy'n dwyn ynghyd sefydliadau ar hyd a lled y rhanbarth i hwyluso system gyfan o feddwl a newid. Nia Ruddle yw Cadeirydd Mudiad 2025.

Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol Mudiad 2025 gennym ym mis Gorffennaf 2024, gyda 70 o fynychwyr ar draws Cymru. Yn ystod y gynhadledd hon, aethom ati i lansio 'Blwyddyn Perthyn' ar gyfer y flwyddyn 2025, sydd wedi fframio llawer o'n gwaith drwy gydol 2025.

Aethom ati i gynnal Cynhadledd 'Cefnogi Pobl Awtistig yn y Gweithle a Thu Hwnt' mewn partneriaeth gyda Clwyd Alyn.

## Partneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru (NWIP)

Partneriaeth o bobl a sefydliadau sy'n datblygu ac yn darparu prosiectau arloesol ar draws y rhanbarth, ac sy'n canolbwyntio ar y 3 maes allweddol ymchwil, arloesi a newid systemau. Rydym wedi cyflawni cydnabyddiaeth ryngwladol am ein gwaith Partneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru, fel rhan o astudiaeth achos OECD fyd-eang.

Bydd Partneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru yn lansio gwefan newydd, ddwyieithog sy'n hawdd i'w defnyddio. Bydd y safle'n rhannu gwybodaeth ddefnyddiol megis data llesiant, adroddiadau, digwyddiadau a newyddion, a bydd yn cynnwys ardal ddiogel lle gall partneriaid weithio gyda'i gilydd. Bydd yn helpu pobl ar draws gogledd Cymru i gael mynediad at sylwadau craff, eglur, cyfredol a'i gwneud yn haws i sefydliadau gydweithredu er budd ein cymunedau.

Cliciwch yma i ddarllen Astudiaeth Achos Byd-eang OECD.

# Adeiladu Cydnerthedd Cymunedol

## Prifysgol Plant Gogledd Cymru (NWCU)

Nod Prifysgol Plant Gogledd Cymru yw annog plant a phobl ifanc i ymgysylltu'n weithredol gyda gweithgareddau allgwricwlaidd, gyda'r bwriad o adeiladu hyder, dyheadau a chyflawniad.

O fewn y cynllun peilot NWCU 2023/24, fe wnaeth cyfanswm o 1,272 o blant a phobl ifanc gymryd rhan yn y rhaglen weithgareddau. Gyda'i gilydd, cyfranogodd 51 o ysgolion a 9 grŵp cymunedol ar draws 6 awdurdod lleol yn y rhaglen.

Cymerodd pobl ifanc ran mewn gweithgareddau megis cerddoriaeth, dawns, gwnïo, drama, coginio, celf, ffotograffiaeth. Cafodd y gweithgareddau hyn eu hwyluso drwy glybiau ar ôl ysgol, clybiau allgwricwlaidd, dysgu annibynnol, darparwyr gweithgareddau allanol a digwyddiadau a ddarparwyd gan y tîm Cenhadaeth Ddinesig. Drwy'r prosiect rydym wedi hwyluso dros 27,108 awr o oriau dysgu allgwricwlaidd ar draws y rhanbarth.

Pan roedd y plant a'r bobl ifanc wedi cwblhau 30 awr o weithgaredd allgwricwlaidd, roeddent yn cyflawni dyfarniad efydd a bod yn gymwys ar gyfer ardystiad mewn seremoni raddio. Ymhellach, cafodd tystysgrifau lefel uwch Arian ac Aur Prifysgol Plant eu dyfarnu i blant a phobl ifanc oedd wedi cwblhau 65 awr (Arian) a 100 awr (Aur) o weithgaredd Prifysgol Plant. Llwyddodd cyfanswm o 669 o blant a phobl ifanc i sicrhau eu bod yn derbyn tystysgrif ar draws pum seremoni raddio'r brifysgol.

Isod mae dolenni i fideos sy'n dal rhai o'r seremonïau Graddio o'r prosiect, gan arddangos y traweffaith mae Prifysgol Plant Gogledd Cymru wedi'i gael ar bobl ifanc, athrawon a theuluoedd.

Drwy ddadansoddiad ymchwil trylwyr, rydym wedi dechrau defnyddio argymhellion er mwyn datblygu Prifysgol Plant Gogledd Cymru ymhellach ar gyfer y dyfodol.

Cliciwch yma i weld fideo seremoni raddio Wrecsam a Sir y Fflint.
Cliciwch yma i weld fideo seremoni raddio Conwy a Sir Ddinbych.
Cliciwch yma i weld fideo seremoni raddio Gwynedd a Ynys Môn.

## Prosiect mewn Blwch

Aethom ati i ddatblygu nifer o 'Brosiectau mewn Blwch' oedd yn cael eu darparu ar hyd a lled y gymuned, ac a oedd yn darparu adnoddau a gweithgareddau ar amrywiol bynciau:

- Eisteddfod
- Trychineb Glofa Gresffordd
- TrACE - Llywio'r Storm
- Creu Meddyginiaeth
- Pizza'r Gofod

25 o ysgolion wedi dangos diddordeb (hyd yma)

3 cartref gofal wedi dangos diddordeb

Prosiect Gresffordd wedi ymddangos ar raglen Heno

## Sgyrsiau Bob

Mae'r prosiect Sgyrsiau Bob yn cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau siarad cyhoeddus a hyder drwy ddarparu hyfforddiant 'Naratif Cyhoeddus' a chefnogaeth gan y tîm Cenhadaeth Ddinesig.

Yn 2024, fe wnaethom gefnogi 7 ysgol i draddodi sgyrsiau arddull TEDx ('Sgyrsiau Bob') ar bwnc iechyd meddwl a llesiant.

Ym mis Ebrill 2025, fe wnaethom gefnogi 5 ysgol ac 1 grŵp cymunedol i draddodi sgyrsiau arddull TEDx ('Sgyrsiau Bob') ar bwnc 'Perthyn'.

Rhestr Chwarae Sgyrsiau 2024

Rhestr Chwarae Sgyrsiau 2025

Mae gweithredoedd a chwestiynau'r bobl ifanc yn ystod eu Sgyrsiau Bob yn cael eu rhannu gydag arweinwyr ar draws y rhanbarth, ac mae ganddynt draweffaith uniongyrchol ar y prosiectau rydym ni a'n partneriaid yn eu rhedeg yn y dyfodol. Er enghraifft, gofynnwyd i Ysgol Eirias (2024) hefyd ddarparu eu Sgwrs Bob yn un o ddigwyddiadau Comisiynydd Plant Cymru ar Hawliau'r Plentyn.

### Sgwrs Fawr Sir y Fflint

Aethom ati i weithio mewn partneriaeth gyda'r elusen WeMindTheGap er mwyn i gannoedd o bobl ifanc 18-21 oed ar draws Sir y Fflint gymryd rhan mewn 'Sgwrs Fawr' i drafod eu meddyliau ynghylch yr ardal leol, a beth ellid ei wneud er mwyn ei gwneud yn well iddynt hwy.

Dysgwch fwy am Sgwrs Fawr Sir y Fflint yma.

### Rhaglen Crewyr Newid Yfory

Rydym wedi gweithio gyda mudiad sydd wedi'i leoli yn ne Cymru er mwyn datblygu a pheilota 'Prosiect Crewyr Newid Yfory' yng ngogledd Cymru. Rydym wedi peilota'r prosiect ar draws 2 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn 2025.

Mae Rhaglen Crewyr Newid Yfory yn canolbwyntio ar ddisgyblion Blwyddyn 8 gan eu hannog i archwilio syniadau ynghylch yr economi gylchol a chynaliadwyedd gyda model dysgu yn seiliedig ar brosiect. Wedi cwblhau nifer o fodiwlau allweddol ar y pynciau hyn, cafodd y dysgwyr eu cyflwyno gyda dewis o feysydd er mwyn codi busnes a datblygu syniad arloesol er mwyn cefnogi eu hardal leol.

Bydd y syniadau a ddatblygwyd gan y bobl ifanc oedd ynghlwm wrth Raglen Crewyr Newid Yfory 2025 yn cael eu harddangos mewn digwyddiad dathlu yn ystod hydref 2025. Mae gwaith ymchwil wedi'i fewnosod drwy gydol y prosiect, er mwyn canfod mwy am ei draweffaith ar ddewis pobl ifanc o bynciau yn y dyfodol ar gyfer TGAU.

## Prosiectau Adrodd Stori

### Rhwydwaith Arloesi Cymru

Rydym wedi sicrhau ariannu gan Rwydwaith Arloesi Cymru (WIN) i ddatblygu ein dull o adrodd straeon ar draws gwasanaethau cyhoeddus fel ffordd o sicrhau llais dinasyddion.

Ochr yn ochr gyda phartneriaid o Brifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd (SPARK) a Phrifysgol Durham aethom ati i gynnal pwll tywod adrodd straeon ar gyfer dros 60 o fynychwyr - dysgu, rhwydweithio, a chreu byrddau darlunio er mwyn datblygu syniadau newydd ynghylch sut y gall adrodd straeon gael ei ddefnyddio fel dull ar gyfer cynnydd a newid mewn iechyd, gofal a gwasanaethau lles yng Nghymru.

## 100 Stori

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar brosiect enghreifftiol Comisiwn Bevan, prosiect 100 Stori - oedd yn cefnogi pobl ifanc i adrodd eu straeon am drawsnewid o wasanaethau iechyd plant i rai oedolion. Rydym wedi darparu adroddiad traweffaith ac wedi hyrwyddo canfyddiadau'r gwaith i ddatblygu a newid y ffyrdd rydym yn ymgysylltu gyda lleisiau dinasyddion o fewn PSB Wrecsam a Sir y Fflint.

Aethom ati i gynnal digwyddiad arddangos ar gyfer dros 60 o fynychwyr er mwyn dathlu gwaith caled a chyfraniadau'r bobl ifanc oedd ynghlwm wrth y prosiect.

Darllenwch ragor am y prosiect 100 o straeon yma.

## Awduron Ifanc

Cafodd awduron y dyfodol o 15 ysgol ar draws Wrecsam a Sir y Fflint eu gwahodd i gyfranogi mewn gweithdy ysgrifennu ym Mhrifysgol Wrecsam, a gynhaliwyd gan yr awdur Simon Hunt. Yna, cafodd y bobl ifanc y dasg o ddogfennu eu meddyliau a'u syniadau ac ysgrifennu mewn llyfr ysgrifennu arbennig iawn.

Yn dilyn hyn cawsant eu gwahodd yn ôl i'r Brifysgol ar gyfer digwyddiad arbennig iawn i arddangos y syniadau roeddent wedi'u datblygu yn eu llyfr ysgrifennu dros yr ychydig fisoedd blaenorol i rieni, gwarcheidwaid a'r tîm Cenhadaeth Ddinesig.

# Cadw'n Iach

## Trawma a Phrofiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE)

Trawma a Phrofiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE)

Ym mhob elfen — o ystafelloedd dosbarth i gymunedau, o lais y myfyriwr i arloesi mewn ymchwil — mae Prifysgol Wrecsam yn meithrin diwylliant o degwch, tosturi a thraweffaith. Nid un prosiect yn unig yw ein taith TrACE, ond mudiad ar gyfer newid arhosol.

Mae 55 o fyfyrwyr, gan gynnwys 6 Cyn-fyfyriwr wedi dod yn hyrwyddwyr TrACE cofrestredig. Mae hyrwyddwyr wedi cefnogi nifer o ddigwyddiadau yn weithredol yn ogystal â stondinau TrACE ar draws campysau eraill er mwyn ymgysylltu gyda myfyrwyr ac ymwelwyr.

Mewn partneriaeth gyda'r Trauma-Informed Design (TiD) Society yn UDA, ac ochr yn ochr gyda staff a myfyrwyr ar draws y brifysgol, rydym yn datblygu'r adnodd asesu

amgylcheddol sy'n ystyriol o drawma cyntaf o'i fath sydd wedi'i deilwra ar gyfer addysg uwch.

Rydym wedi ymestyn y dull TrACE i fentrau cenhadaeth ddinesig mawr - gan ddarparu hyfforddiant ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma o fewn Prifysgol Plant Gogledd Cymru (NWCU) a'r prosiect ymchwil Map Llwyfan Cyhoeddus AHRC £4.6m sy'n cael ei arwain ar y cyd gan Brifysgol Wrecsam.

Mae ein gwaith TrACE wedi ymddangos fel astudiaeth achos Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn ei adnodd Datblygiad Proffesiynol yn ystod haf 2024.

Darllenwch ein hadroddiad traweffaith / gwerthusiad yma.

## Prosiect Iechyd a Llesiant y Celfyddydau

Cynhaliom ddau Weithdy Therapi Celfyddydau Amgylcheddol Arbrofol yn Xplore! Safle natur ar gampws Llaneurgain Prifysgol Wrecsam, mewn cydweithrediad gyda Manuela Niemetscheck o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB).

Cafodd y sesiynau hyn eu darparu i dros 20 o fynychwyr ar draws ystod eang o sefydliadau ar draws y rhanbarth, gan archwilio buddion Therapi Celfyddydol Amgylcheddol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r effaith bositif y gall ei gael ar iechyd a lles.

*"Byddaf yn rhannu'r arferion gyda staff. Defnyddio rhan o fyd natur i adfyfyrio ar deimlad neu emosiwn," - Adborth gan fynychwr*

Cafodd y gwaith hwn ei rannu yn Eisteddfod Genedlaethol 2025 yn ystod gweithgaredd creadigol a thrafodaeth banel ar brosiectau celfyddydau a iechyd ar draws gogledd Cymru. Byddwn yn parhau i dyfu a datblygu'r gwaith hwn i mewn i 2026, gan hwyluso gweithdai newydd a dysgu pellach ar rym therapi celfyddydau amgylcheddol a'i draweffaith ar iechyd a lles.

# Ymchwil a Phartneriaethau Strategol

Dros y cyfnod 2024-2025, rydym wedi datblygu partneriaethau strategol gyda nifer o unigolion a sefydliadau, tra'n atgyfnerthu ein cysylltiadau gyda rhai rydym wedi gweithio gyda hwy yn flaenorol. Rydym wedi gweithio ar nifer o brosiectau a digwyddiadau ar y cyd, megis cynhadledd 'Cefnogi Awtistiaeth yn y Gweithle a Thu Hwnt', cynhadledd 'Cymru Iachach, Gyfoethocach a Thecach - Gweithio gyda'n Gilydd i Drechu Tlodi Plant' a Phartneriaeth Ymgysylltiad Dinesig Gogledd Cymru i enwi ond ychydig.

Rydym hefyd wedi gweithio ar nifer o geisiadau ariannu cydweithredol ochr yn ochr gyda phartneriaid. Megis ein cais Rhwydwaith Arloesi Cymru llwyddiannus i archwilio adrodd

straeon fel dull ar gyfer newid mewn gwasanaethau iechyd, gofal a lles yng Nghymru. Mae ein hymrwymiad i weithio'n gydweithredol yn alinio'n agos gyda Gweledigaeth 2030 Prifysgol Wrecsam, gan gefnogi'r brifysgol i ddod yn hyb ar gyfer gogledd-ddwyrain Cymru, ac adeiladu partneriaeth ar draws y rhanbarth. Mae'r partneriaethau rydym wedi'u datblygu a'u cynnal ymhellach yn galluogi i ni barhau i gefnogi Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015), yn y ffordd fwyaf effeithiol, ac sy'n cael y mwyaf o effaith.

Dros gyfnod 2024-2025, rydym hefyd wedi datblygu ymhellach ein hagwedd at fewnosod ymchwil drwy gydol ein gwaith. Rydym wedi penodi ymchwiliwr sy'n arwain ein gwaith ymchwil a'n gwaith traweffaith ar draws y rhanbarth; mae'r gwaith pwysig hwn yn cefnogi cyflwyno Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2029 Prifysgol Wrecsam.

Rydym yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion ymchwil, yn arbennig felly arwain ymgysylltu Bwrdd Tref Wrecsam gyda thros 4000 o aelodau o gymuned Wrecsam a 35 o ysgolion, er mwyn canfod beth sy'n fwyaf pwysig i'r gymuned leol, a'u barn a'u syniadau ynghylch sut i wella llesiant a bywydau yn yr ardal leol. Ochr yn ochr â hyn, fe wnaethom sicrhau bod ymarferwyr yn chwarae rhan mewn datblygu 'Llyfr ar gyfer Wrecsam' fel rhan o'r rhaglen 10 mlynedd o fuddsoddi ar draws y ddinas.

Ymhellach, cafodd Adroddiad Ymchwil Cynllun Peilot Prifysgol Plant Gogledd Cymru 2023/24 ei gynhyrchu er mwyn darparu dealltwriaeth drylwyr o draweffaith y prosiect ar bobl ifanc, a'u hoffter o ddysgu, yr aelodau o'r gymuned oedd yn fwyaf tebygol o ymgysylltu gyda'r prosiect, a'r argymhellion rydym yn gallu eu dwyn ymlaen er mwyn ffurfio a llywio'r prosiect fel ei fod yn gweddu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu orau.

Mae Prifysgol Wrecsam hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Caergrawnt a Phrifysgol Caerdydd er mwyn datblygu llwyfan mapio cymunedol ar Ynys Môn gan weithio'n uniongyrchol gyda chymunedau er mwyn gwneud llefydd yn well i'r bobl sy'n byw yno, a chan ddefnyddio ymchwil ac ymgysylltu cymunedol er mwyn dylanwadu'n uniongyrchol ar yr argymhellion.

# Y Camau Nesaf

## Arwain, llywodraethu a gweithio fel system gyfan

Camau Blaenoriaeth:

- Galluogi a darparu hyb arloesi, creu gofod ar gyfer arbenigedd ac egni i alluogi dealltwriaeth a gweithredu ar y cyd, gyda gwahanol bartneriaid a chymunedau.

- Arloesi, cyd-greu a phrofi dulliau a ffyrdd newydd o weithio er mwyn mynd i'r afael ag anghyfartaledd cymdeithasol gyda'n gilydd.

## Adeiladu cydnerthedd cymunedol

Camau Blaenoriaeth:

- Cefnogi ein cymunedau a'n partneriaid, gwrando mewn ffordd weithredol a gwneud yr hyn sy'n cyfrif fwyaf i bartneriaid a dinasyddion.
- Rhoi Prifysgol Plant Gogledd Cymru ar waith a'i datblygu, a galluogi iddi fod yn gyfrwng ar gyfer cydweithredu a newid er mwyn cefnogi llesiant ar gyfer teuluoedd, hoffter o ddysgu i bawb, cysylltu gydag asedau cymunedol a datblygu arweinwyr y dyfodol.
- Profi ac archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o wrando ar ein cymunedau a'n dinasyddion drwy adrodd straeon a dulliau arloesol eraill.

## Cadw'n iach

Camau Blaenoriaeth:

- Cefnogi a galluogi dinasyddion, cymunedau a sefydliadau i fod yn iach, ac i gadw'n iach, gan alluogi i garedigrwydd a thosturi fod wrth galon ein holl waith gyda phartneriaid sy'n cefnogi ein rhanbarth i fod yn rhanbarth sy'n wybodus ynghylch trawma.
- Gan arwain gyda phartneriaid, bydd ein dull arloesol at symudiad cymdeithasol ar gyfer newid yn canolbwyntio ar ataliad a phenderfynyddion ehangach iechyd.

## Gweithio mewn partneriaeth ac ymchwil strategol

Camau Blaenoriaeth:

- Tyfu ein rôl fel cynullydd, hwylusydd, galluogwr a darparwr newid i'r rhai rydym yn eu gwasanaethu, partneriaid a chymunedau ar draws y rhanbarth.
- Galluogi ein gwaith gydag arloesi, arbenigedd, ymchwil a ffocws gan weithio gyda phartneriaid ac ochr yn ochr â nhw, a gyda chymunedau sy'n gyrru newid gwirioneddol mewn ymarfer.

Byddwn yn mwyhau ein gwaith ac yn datblygu'r arbenigedd ar draws y rhanbarth er mwyn gyrru systemau cyfan a newid trawsffurfiadol, gan sicrhau bod ymchwil a thraweffaith yn sail i bopeth, fel y gallwn ddylanwadu ar bolisi, ei ffurfio a'i ddatblygu.

### Canolfan ymchwil flaenllaw

Camau Blaenoriaeth:

- Arwain ar sefydlu ffocws canolfan ymchwil ac arloesi flaenllaw ar genhadaeth ddinesig sy'n ganolfan ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi methodolegol wrth fesur traweffaith polisi cymdeithasol yn y maes hwn gan brofi a llywio arloesi i fod yn sail i ymarfer.

## Diolch a chysylltwch â ni

Diolch enfawr i bawb sydd wedi cydweithredu gyda ni, ein cefnogi ac sydd wedi ymgysylltu gyda'n gwaith dros gyfnod 2024-2025. Rydym wedi bod yn ddigon lwcus i bartneriaethu gyda nifer o sefydliadau ac unigolion gwych ledled y wlad ar amrywiaeth eang o brosiectau, ac rydym wedi cael y fraint o weithio gyda, a chefnogi miloedd o aelodau cymuned gogledd Cymru (o 8 i 80 oed, a thu hwnt).

Rydym yn eithriadol o falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf yn ein cenhadaeth i fynd i'r afael ag anghyfartaledd cymdeithasol yng ngogledd Cymru, ac edrychwn ymlaen at barhau i dyfu a datblygu ein gwaith er mwyn cefnogi'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn y ffordd orau.

Os hoffech chi gysylltu gyda'r tîm Cenhadaeth Ddinesig, er mwyn dysgu am ein prosiectau neu eu trafod, neu i ganfod mwy ynghylch sut allwn ni weithio gyda'n gilydd, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy:

## Yn Chwarae Nawr:

Detholiad o ganeuon gan aelodau o'r tîm, er mwyn rhoi syniad i chi o naws ein swyddfa a'r gerddoriaeth rydym yn gwrando arni wrth weithio'n galed i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol!

- Firmans Man- KAJ
- Don't Stop Believin'- Journey
- Dreams- The Cranberries
- What's Up?- 4 Non Blondes
- Go Your Own Way- Fleetwood Mac
- (Something Inside) So Strong- Labi Siffre
- Nessun Dorma- Pavarotti

## Geirfa

AHRC - Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau

BCUHB - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Sgyrsiau Bob - Sgyrsiau dull TEDx a roddir gan blant a phobl ifanc ar bwnc penodol. Enw a ysbrydolwyd gan sgwrs a roddwyd gan Ysgol Eirias yng Ngŵyl Llesiant Wrecsam (Gorffennaf 2024).

CU - Prifysgol Plant

CYP - Plant a Phobl Ifanc

NWCEP (Partneriaeth Ymgysylltiad Dinesig Gogledd Cymru)- Partneriaeth o wneuthurwyr newid ar hyd a lled y rhanbarth, wedi'u dwyn ynghyd gyda'r nod o alinio blaenoriaethau, hwyluso cydweithrediad rhanbarthol, adeiladu capasiti mwyhau adnoddau ar draws y dirwedd er mwyn mynd i'r afael â newidiadau o fewn y gymdeithas yn y ffordd orau.

NWCU - Prifysgol Plant Gogledd Cymru

NWIP (Partneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru) - Partneriaeth o bobl a sefydliadau sy'n datblygu ac yn darparu prosiectau arloesol ar draws y rhanbarth, ac sy'n canolbwyntio ar y 3 maes allweddol o ymchwil, arloesi a newid systemau.

NWPSL (Labordy Gwasanaeth Cyhoeddus Gogledd Cymru) - Gofod ffisegol a rhithiol er mwyn dwyn ynghyd arweinwyr i weithio mewn ffordd wahanol. Adeiladu capasiti a galluoedd i yrru arloesi o amgylch heriau cydweithredol.

OECD - Sefydliadau ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

PSBau - Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

QAA - Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch

REF - Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

SPARK - Parc Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol (Prifysgol Caerdydd)

TCM - Rhaglen Crewyr Newid Yfory

TiD - Cymdeithas Wedi'i Dylunio i fod yn Wybodus ynghylch Trawma

TrACE - Trawma a Phrofiad Niweidiol yn ystod Plentyndod

WIN - Rhwydwaith Arloesi Cymru